**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

—

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Llywodraeth Cymru

16 Ionawr 2024

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Annwyl Jeremy,

Diolch am ymddangos yng nghyfarfod y Pwyllgor ddydd Iau, 11 Ionawr 2024 i roi tystiolaeth ar gyfer ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 Llywodraeth Cymru. Hoffai'r Pwyllgor holi am rai materion a drafodwyd, a byddai'n ddiolchgar o gael y wybodaeth ychwanegol a amlinellir isod.

Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn graffu, er mwyn i Cymraeg 2050 fod yn llwyddiant, mae angen prif ffrydio nodau ac amcanion y strategaeth ar draws gwaith holl adrannau'r Llywodraeth. Mae gan bob Gweinidog a Dirprwy Weinidog ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi datblygiad a thwf yr iaith, i helpu i feithrin gallu i siarad Cymraeg a chreu cyfleoedd i'w defnyddio ledled Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfraniad y mae pob adran o'r Llywodraeth yn ei wneud i amcanion Cymraeg 2050, ac effaith y gwaith hwnnw ar ddatblygiad y Gymraeg. yn glir i ni.

Hoffai'r Pwyllgor gael dealltwriaeth lawnach o'r ystod o weithgareddau a gwariant ar draws adrannau'r Llywodraeth sy'n cyfrannu at amcanion Cymraeg 2050. O'r herwydd, mae'n bwysig i ni fod gennym wybodaeth am effaith ehangach toriadau yng nghyllideb adrannau eraill y Llywodraeth ar ddatblygu polisi ac ymyriadau o ran y Gymraeg.

Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu diweddariad yn dilyn trafodaethau arfaethedig rhwng swyddogion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn deall yn well sut y gallai'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg ôl-16 a dysgwyr Cymraeg.

Mae'r Pwyllgor yn deall na fydd modd darparu'r wybodaeth hon mewn pryd i lywio'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft a chyn y bydd yn adrodd ei ganfyddiadau i'r Senedd. Fodd bynnag, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu amserlen ddangosol ar gyfer casglu ac adrodd ar y wybodaeth hon fel y gallwn ymgorffori hyn yn ein cynlluniau gwaith ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir

**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.